GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Sgan ar eich Anewrysm Aortig - Eglurhad

# Labordy Fasgwlar

---

**Eich sgan**

Yn gyntaf …. Mae'r math hwn o sgan yn gwbl ddi-boen ac ni ddefnyddir unrhyw nodwyddau nag unrhyw ddyfeisiau mewnwthiol eraill.  Yn debyg i sgan babi, defnyddir uwchsain i greu delweddau sgrin sy'n dangos llif y gwaed o fewn eich gwythiennau a'ch rhydwelïau.

Mae'n bosibl mae sonograffydd gwrywaidd neu fenywaidd fydd yn cynnal y sgan, yn dibynnu pwy fydd ar ddyletswydd. Os byddwch chi'n bryderus am gael eich sganio gan berson o ryw wahanol, gallwch gysylltu â'r adran a byddwn yn trafod yr apwyntiad.
Rhif ffôn: 01633 - 238287.

**Beth i'w ddisgwyl**

Ar gyfer y math hwn o sgan, bydd yn rhaid i'r technolegydd weld eich stumog yn hawdd.  Mae'n bosibl y bydd yn gofyn i chi dynnu eich côt/ siwmper ayyb.

Gofynnir i chi orwedd i lawr ar y gwely gyda'ch breichiau wrth eich ochr.

Ar ôl rhoi ychydig o gel oer ar eich stumog, bydd y technolegydd yn rhoi'r stiliwr ar wyneb y croen ac yn sganio'r man angenrheidiol. Mae'n bosibl y byddwch chi'n teimlo ychydig o bwysedd ysgafn wrth iddo/ iddi wneud hyn.

**Pa mor hir fydd hyn yn para?**

Fel arfer, bydd y math hwn o sgan yn para am ryw 15 - 30 munud ac yna byddwch yn rhydd i fynd.

**Sut gallwch chi baratoi**

Nid yw'n bwysig ond gall helpu weithiau os na fyddwch chi'n bwyta brecwast neu ginio mawr cyn cael eich sgan. Gall hefyd helpu os byddwch chi'n ceisio yfed diodydd clir yn unig. Gall hyn roi delwedd gliriach o'r pibelli gwaed yn eich stumog i'r technolegydd  a bydd yn gwneud eich sgan yn haws ac ynghynt.

Peidiwch â newid eich arferion bwyta os ydych chi'n ddiabetig neu'n dilyn diet arbennig am resymau iechyd.  Bydd y technolegydd yn gallu cwblhau'r archwiliad beth bynnag.

## Ar ôl y sgan

Ar ôl gorffen y sgan, bydd y technolegydd yn ysgrifennu adroddiad i'w anfon at eich ymgynghorydd yn rhoi canlyniadau'r archwiliad.  Os bydd yr ymgynghorydd yn dymuno eich gweld eto, bydd yn cysylltu â chi.

## Cludiant Cleifion

Os byddwch chi'n cyrraedd ar gyfer eich apwyntiad gyda chludiant cleifion, a fyddech chi cystal â dweud wrth y technolegydd er mwyn iddo/ iddi roi gwybod i'r cludiant pan fydd eich archwiliad wedi gorffen.

**"This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg".**